Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN26

- **Eitemau Miniog wedi'u Halogi â Gwastraff Meddyginiaethol Heintus**
- **Gwastraff Solet Heintus wedi'i Halogi â Chemegau**
- **Gwastraff Solet Heintus wedi'i Halogi â Meddyginiaethau**

## Bag Melyn/Blwch gwastraff clinigol â chaead melyn

| | |
|---|---|
| Wedi'i ddiweddaru gan: | Ben Harris (Swyddog yr Amgylchedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y fersiwn hon:** | 18/11/2025 |

| **Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN26<br>Gwastraff Solet a Miniog Heintus wedi'u halogi â Chemegau** | |
|---|---|
| Lleoliad cynhyrchu | Categori Labordy CAT1/2 |
| Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) | 18 01 03* / 18 01 06* / 18 01 07 / 18 01 09<br>18 02 02* / 18 02 05* / 18 02 06 / 18 02 08 |
| Dosbarth Cludo a Rhif UN | Dosbarth 6.2 / UN 3291 |
| Math | Wedi'i reoli - Gwastraff peryglus HP9 Heintus<br>Wedi'i reoli - Cemegol |
| Dull Gwaredu | Gwahanu i'w losgi |
| Math o Fin/Fag | Bin metel gwrthdan / **Bag Melyn Yn Unig**<br>**Blwch clinigol melyn anhyblyg â chaead melyn**<br>4litr, 7litr, 11litr, 24litr, 30litr |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

**Dynol:**

| Côd EWC | Disgrifiad | Dull cadw | Statws Heintus | Dosbarthiad Perygl |
|---|---|---|---|---|
| 18-01-03* | Gwastraff y mae ei gasglu a'i waredu yn ddarostyngedig i ofynion arbennig er mwyn atal haint | Heb ei gadw'n gemegol | Heintus | Peryglus (HP9) |
| 18-01-06* | Cemegau a ddefnyddir mewn gofal iechyd pobl a wnaed gan ddefnyddio sylweddau peryglus neu sy'n cynnwys sylweddau peryglus | Wedi'u cadw'n gemegol | Heintus neu anheintus | Peryglus |
| 18-01-07 | Cemegau ac eithrio'r rhai a grybwyllir yn 18 01 06* | Wedi'u cadw'n gemegol | Anheintus | Ddim yn beryglus |
| 18-01-09 | Meddyginiaethau heblaw am feddyginiaethau sytotocsig a sytostatig o ofal iechyd dynol | Gallen nhw fod wedi'u cadw'n gemegol | Anheintus | Ddim yn beryglus (oni bai eu bod wedi'u dosbarthu fel arall oherwydd cynhwysion penodol) |

**Anifeiliaid:**

| Côd EWC | Disgrifiad | Dull Cadw | Statws Heintus | Dosbarthiad Perygl |
|---|---|---|---|---|
| 18-02-02* | Gwastraff y mae ei gasglu a'i waredu yn ddarostyngedig i ofynion arbennig er mwyn atal haint | Heb ei gadw'n gemegol | Heintus neu a allai fod yn heintus | Peryglus (HP9) |
| 18-02-05* | Cemegau a ddefnyddir mewn gofal iechyd anifeiliaid a wnaed o sylweddau peryglus neu sy'n cynnwys sylweddau peryglus | Wedi'u cadw'n gemegol | Heintus neu'n anheintus | Peryglus |
| 18-02-06 | Cemegau ac eithrio'r rhai a grybwyllir yn 18 02 05* | Wedi'u cadw'n gemegol | Anheintus | Ddim yn beryglus |
| 18 02 08 | Meddyginiaethau heblaw am feddyginiaethau sytotocsig a sytostatig o ofal iechyd anifeiliaid | Gallen nhw fod wedi'u cadw'n gemegol | Anheintus | Ddim yn beryglus |

Gwastraff o ofal iechyd pobl ac anifeiliaid a/neu ymchwil gysylltiedig y mae angen ei waredu drwy ei losgi. Y driniaeth/dull gwaredu dangosol yw llosgi mewn cyfleuster â chaniatâd neu drwydded addas.

Disgrifiad; Gwastraff clinigol, heintus, sy'n cynnwys meddyginiaethau/cemegau o ofal iechyd pobl/anifeiliaid, i'w losgi'n unig.

Mae'n ofyniad cyfreithiol dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus i wahanu gwastraff peryglus oddi wrth wastraff nad yw'n beryglus i sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddosbarthu'n gywir. Gall gwaredu gwastraff peryglus yn anghywir drwy ffrwd wastraff nad yw'n beryglus arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio. Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01: Rheoli Gwastraff Gofal Iechyd yn Ddiogel[1] yn darparu arweiniad cynhwysfawr ar waredu gwastraff gofal iechyd yn unol â safonau'r diwydiant, a gofynion cyfreithiol, ac yn amlinellu'r system côd lliwiau a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer gwastraff gofal iechyd/clinigol.

[1] Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01: Rheoli Gwastraff Gofal Iechyd yn Ddiogel

**Infectious waste contaminated with chemicals/medicines**

Cynhyrchir gwastraff clinigol heintus sydd wedi'i halogi â meddyginiaeth/cemegau mewn labordai wrth weithio ar samplau a llinellau celloedd dynol/anifeiliaid. Mewn lleoliad ymchwil o ganlyniad i brofi samplau sy'n cynnwys haint, neu y tybir eu bod â haint ac sydd wedi'u halogi â'r canlynol (nid yw'n rhestr gynhwysfawr):

- Hylifau'r corff megis gwaed / plasma gwaed / serwm gwaed
- Bustl
- Mwcws
- Poer
- Troeth
- Ysgarthion

## Eitemau Gwastraff

Rhaid gwahanu'r eitemau canlynol sydd wedi'u halogi â gwastraff clinigol a heintus sy'n cynnwys meddyginiaethau/cemegau cyn eu gwaredu;

| Blwch gwastraff clinigol â chaead melyn (eitemau miniog) | Bagiau Melyn (Gwastraff Solet - nad yw'n finiog) |
|---|---|
| - Ffiolau | - Dillad Diogelu Personol PPE – menig a mygydau, ffedogau |
| - Chwistrellau a nodwyddau | - Tywelion papur glas |
| - Pecynnau profi | - Weips / tywelion papur |
| - Tiwbiau sampl plastig | |
| - Blaenau plastig | |
| - Pibedau plastig | |
| - Stribedi profi | |
| - Swabiau | |
| - Pibedau serolegol (I'w diheintio cyn eu gwaredu) | |
| - Llafnau | |
| - Siswrn | |
| - Offer tafladwy eraill | |

Rhaid defnyddio cynhwysyddion gwastraff â chaead coch i waredu gwastraff anatomegol (sy'n heintus neu'n anheintus) (WMGN24)

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### <u>Storio Mewnol</u>

**Blwch gwastraff clinigol â chaead melyn**

Rhaid rhoi'r holl eitemau miniog (gan gynnwys gwastraff sy'n debygol o rwygo bagiau gwastraff melyn) o wastraff clinigol heintus sydd wedi'i halogi â meddyginiaethau/cemegau mewn blwch gwastraff clinigol a chaead melyn i'w gwaredu.

**Sylwer bod COSHH yn ei gwneud i'n ofynnol bod yr holl feinweoedd a meithriniadau celloedd yn cael eu diheintio cyn eu gwaredu mewn bin melyn ar gyfer eitemau miniog. Gweler rheolau lleol ar gyfer arweiniad ynghylch diheintio.**



Ffigur 1 - Blwch gwastraff clinigol â chaead melyn

Gellir cael blychau gwastraff clinigol â chaead melyn a llofnodi ar eu cyfer yn y lleoliadau canlynol:

- **Campws Singleton**
  Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd/Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg - Storfeydd ILS1
- **Campws y Bae**
  Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg – Swyddfa'r Iard Gwasanaeth Peirianneg

## Storio/Gwaredu Allanol

Er mwyn gwaredu, gwnewch yn siŵr bod y caead wedi'i selio i'w gludo a rhaid mynd â blychau gwastraff clinigol llawn yn ôl i'r lleoliadau canlynol:

- **Campws Singleton**
  Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd/Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg - Storfeydd ILS1
- **Campws y Bae**
  Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg - Swyddfa'r Iard Gwasanaeth Peirianneg (biniau melyn 1100 allanol pwrpasol) Gofynnwch i staff swyddfa'r iard gwasanaeth am fynediad

# Cyfarwyddiadau Gwaredu

## Storio Mewnol

**Bagiau melyn**

Rhaid i'r holl labordai a chlinigau sy'n cynhyrchu gwastraff solet heintus ddarparu biniau gwastraff sy'n cydymffurfio â'r rheolau - mae manyleb safonol wedi'i llunio a gellir ei gweld yma.

Rhaid rhoi'r holl wastraff clinigol heintus sydd wedi'i halogi â meddyginiaethau/cemegau nad yw'n finiog mewn bagiau melyn i'w gwaredu mewn biniau gradd glinigol metel gwyn â chaead troi.  Rhaid i bob bin fod ag arwydd Gwastraff Solet Heintus wedi'i Halogi â Chemegau arno (gellir dod o hyd i'r arwydd priodol isod).

**Ni** ddylid rhoi eitemau miniog mewn bagiau melyn mewn unrhyw amgylchiadau, nac eitemau a allai rwygo'r bag, gan gynnwys blaenau miniog. Mae gwydr yn rhwygo'r bagiau ac mae ganddo oblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer darparwyr gwasanaethau gwastraff, gweler WMGN23 Gwydr labordy sydd wedi'i dorri a'i halogi




Ffigur 2 - bag gwastraff clinigol melyn â bin metel gwrthdan addas

Dylid rhoi eitemau solet megis ysgarthion dynol/anifeiliaid mewn biniau â chaead melyn. Gellir cael bagiau melyn a llofnodi ar eu cyfer o'r lleoliadau canlynol;

- **Campws Singleton**
  Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd/Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg - Storfeydd ILS1
- **Campws y Bae**
  Y Gyfadran Iechyd a Pheirianneg – Swyddfa'r Iard Gwasanaeth Peirianneg

## Storio/Gwaredu Allanol

Er mwyn gwaredu, gwnewch yn siŵr bod y caead wedi'i selio i'w gludo a rhaid mynd â biniau melyn yn ôl i'r lleoliadau canlynol;

- **Campws Singleton**
  Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd/Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg - Storfeydd ILS1
- **Campws y Bae**
  Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg - Swyddfa'r Iard Gwasanaeth Peirianneg (biniau melyn 1100 allanol pwrpasol) Gofynnwch i staff swyddfa'r iard gwasanaeth am fynediad

## Cost Gwaredu

Codir tâl am y gwasanaeth hwn, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

**Am ragor o arweiniad, e-bostiwch Estates-Waste@abertawe.ac.uk**


## Ffurflenni, Labeli ac arweiniad pellach

Ceir yr arwydd ar gyfer Gwastraff Solet Heintus a Halogwyd â Chemegau isod
Mae'r holl ffurflenni, labeli ac arweiniad pellach ar gyfer gwastraff ar gael **yma.**

Swansea University
Prifysgol Abertawe

## <u>Atodiad 1 : Diagram Gwahanu a Dosbarthu Gwastraff</u>[2]

Defnyddiwch y diagram llif canlynol i sicrhau eich bod yn defnyddio'r bin lliw cywir i'ch gwastraff




**Sylwer:** Er bod yr arweiniad hwn yn berthnasol i wastraff o leoliadau clinigol a gofal iechyd yn benodol, gellir ei ddefnyddio hefyd i lywio arferion gwastraff mewn amgylcheddau labordy eraill. Fodd bynnag, cyfeiriwch at y Nodiadau Arweiniad Rheoli Gwastraff (WMGN) perthnasol ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus arall.

[2] Memorandwm Technegol Iechyd 07-01: Atodiad 3

# GWASTRAFF SOLET HEINTUS SYDD WEDI'I HALOGI Â CHEMEGAU




# BAGIAU MELYN YN UNIG

## BIN METEL CLINIGOL Â CHAEAD FFLIPIO YN UNIG - EWC 18 01 03 *

**EITEMAU**

**PPE - MENIG/MYGYDAU/FFEDOGAU - WEIPS - GORCHUDDION - PLASTRAU - RHWYMYNNAU - GWASTRAFF SYDD WEDI'I HALOGI Â HYLIFAU'R CORFF A CHEMEGAU - POTELI PLASTIG SY'N STORIO HYLIFAU (RHAID EU DIHEINTIO)**

**DIM GWYDR O UNRHYW FATH - EITEMAU MINIOG/GWASTRAFF CARTREF NEU AILGYLCHU/DIM MICRO-ORGANEBAU HYFYW/MEITHRINIADAU CELLOEDD**

**PEIDIWCH Â RHOI BAGIAU MELYN MEWN BINIAU ALLANOL AR GYFER GWASTRAFF NAD YW'N CAEL EI AILGYLCHU NA GWASTRAFF AILGYLCHU**